Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Penmachno

**Penmachno**
**Betws-Y-Coed**
**Conwy**
**LL24 0PT**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Penmachno

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penmachno |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 38 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 32 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 6.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 31.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 62.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 20/10/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Penmachno yn gymuned ddysgu deuluol, gynhwysol a gofalgar lle mae pob disgybl yn cael eu meithrin a'u hannog i 'Dyfu a dysgu gyda'n gilydd.' Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng y disgyblion, y staff, y rhieni a'r gymuned ehangach.

Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau ysgogol a difyr i ddisgyblion sy'n eu cefnogi i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn briodol erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Yn gyffredinol, nid yw adborth athrawon i ddisgyblion yn ddigon effeithiol i'w cefnogi i wybod beth i'w wneud i wella eu gwaith, a sut.

Mae pob disgybl yn aelod gwerthfawr o'r amrywiol gynghorau, ac mae eu llais a'u gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae sesiynau 'Llun Lles' a 'Gwener Gwych' yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau sy'n hybu cydweithio diwyd, er enghraifft wrth atgyfnerthu ystod dda o fedrau yn yr ardaloedd dysgu tu allan. Yn ogystal, mae'n hybu'r disgyblion i ddatblygu eu gwydnwch a gofal am eu lles emosiynol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus ac yn ymfalchïo mewn perthyn i'r ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod dda o brofiadau diddorol sy'n adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, am hanes a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol. Maent yn annog disgyblion i ddathlu eu Cymreictod drwy ystod o weithgareddau cofiadwy ac ymweliadau sy'n meithrin eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u balchder o'u hardal leol yn hynod effeithiol. At ei gilydd, nid yw lleiafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigymell gyda'i gilydd yn ddigon cyson wrth iddynt ddysgu a chwarae.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth strategol glir a chefnogol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol gyda brwdfrydedd a balchder, a gwneir defnydd medrus o'u harbenigeddau i gefnogi gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr adnabyddiaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod adborth athrawon yn helpu disgyblion i wybod beth i wella yn eu gwaith a sut

A2 Cefnogi disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau cyfathrebu, cymdeithasol ac emosiynol llawer o ddisgyblion yn is na'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran a'u cam datblygu. Dros amser, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ADY a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau gan oedolion ac ar gyfraniadau a sylwadau ei gilydd. Maent yn ymateb yn barchus a hwyliog i eraill gan ddefnyddio tôn llais ac ystum corff priodol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau dysgu ac wrth gymdeithasu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu storïau difyr ac yn trin a thrafod y cymeriadau gan ddefnyddio geirfa ddiddorol a chyfoethog. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dueddol o drafod eu profiadau dysgu a chymdeithasu yn Saesneg.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn darllen yn frwdfrydig ac yn defnyddio strategaethau pwrpasol wrth ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Maent yn dechrau trafod eu hoff testunau ac yn cynnig rhesymau cadarn i gefnogi eu dewisiadau. Dros amser, mae disgyblion yn adeiladu'n bwrpasol ar eu medrau ac, erbyn Blwyddyn 4, maent yn dangos dealltwriaeth gynyddol dda o gynnwys testun. Maent yn amrywio goslef eu lleisiau yn frwdfrydig wrth ddarllen er mwyn cyfleu ystyr yn effeithiol. Mae'r disgyblion hynaf yn darllen testunau mwy ymestynnol yn rhugl ac yn trafod eu hoff awduron yn feddylgar. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu creadigol yn llwyddiannus wrth ddewis ansoddeiriau priodol i ddisgrifio'r creaduriaid y maent yn eu darganfod yn yr ardal dan y môr. Dros amser, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ysgrifenwyr mentrus a chreadigol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn dechrau defnyddio cymariaethau'n fwriadus i greu synnwyr o ofn ac antur wrth ysgrifennu disgrifiad o storm. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws ystod o ffurfiau yn briodol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio medrau rhif cynnar yn llwyddiannus ac yn cyfri gwrthrychau hyd at 10 yn ddibynadwy. Mae disgyblion Blwyddyn 3, er enghraifft, yn adeiladu ar y medrau hyn yn dda ac yn defnyddio dulliau pwrpasol ar gyfer adio a thynnu rhifau 3-digid. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o werth lle ac yn nodi a chymharu rhifau dros un miliwn yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau

rhif yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn llunio cynllun busnes ar gyfer cynnal stondin yng Ngŵyl Machno ac yn cynnwys amcanion manwl o'r elw y maent yn anelu i'w wneud.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau digidol. Maent yn cymhwyso eu medrau'n hyderus i bwrpasau amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn creu ffilm fer i esbonio i'r gwyliwr pam mae dail yn newid lliw ar draws y tymhorau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau corfforol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau cydbwyso gwerthfawr wrth ymarfer rheoli beiciau yn egnïol o amgylch y buarth. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos agweddau cadarnhaol at weithgareddau corfforol wrth ymarfer eu medrau pêl-droed, a chario canghennau a brigau ar gyfer adeiladu llochesi yn ardal y goedwig.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws ystod o weithgareddau ysgogol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn frwdfrydig wrth ddylunio sanau lliwgar a chynnes i Sali Sws yr Octopws tra bod disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn ystyried lles creaduriaid y môr wrth greu sŵ i'w cadw'n ddiogel gan ddefnyddio blociau a darnau o bren.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Bron heb eithriad, mae disgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol a'u hardal leol, ac yn teimlo'n hapus a diogel yn ei hethos cynhwysol a gofalgar. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd gofal o'r rhai ieuengaf yn naturiol ac aeddfed, er enghraifft wrth wrando arnynt yn darllen yn y dosbarth ac wrth weithredu fel 'Bydis Buarth' yn ystod amseroedd egwyl. Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn arddangos parch tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gyfeillgar â'i gilydd ac yn cyfarch oedolion yn serchus a chwrtais.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn meithrin perthynas waith gadarnhaol ag aelodau staff, gan fod yn hyderus bod oedolion yn yr ysgol ar gael i wrando arnynt. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymgysylltu â'u dysgu yn gyson a datblygu'n gyfranwyr hyderus i fywyd yr ysgol a'r gymuned. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwasanaethau a chyngherddau yn y pentref, gan berfformio'n gyson gyda'r côr lleol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio'n gyson ar yr amrywiaeth o ddulliau effeithiol sydd ar gael i gefnogi eu lles emosiynol a chymdeithasol. Yn ystod eu sesiynau 'Llun Lles', mae bron bob disgybl yn cyfranogi'n llwyddiannus mewn ystod dda o brofiadau gwerthfawr yn yr ardaloedd dysgu tu allan. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn coginio crempogau ar dân agored, a'r disgyblion hynaf yn defnyddio clai a brigau'n grefftus i greu modelau o gymeriadau dychmygol sy'n byw yn yr ardd wyllt. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu'n unigolion hapus, iach a hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â diet a sut i'w cadw eu hunain yn gorfforol iach. Maent yn dod â ffrwythau i'r ysgol ar gyfer eu byrbryd amser egwyl ac yn cael eu hannog i flasu a bwyta llysiau yn ystod amser cinio. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw

eu hunain yn ddiogel ar lein, ac mae ymweliadau'r heddwas yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwrando ac yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig gan ymateb yn hyderus i gwestiynau gan athrawon a chymorthyddion dysgu. Maent yn ymroi i'w tasgau yn ddiymdroi ac yn arddangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei ddysgu, gan ymgymryd â'r gweithgareddau a ddarperir â gwydnwch a brwdfrydedd. Maent yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth ddatrys problemau, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf gydweithio'n chwilfrydig wrth adeiladu llochesi allan o ddeunyddiau naturiol yn ardal y goedwig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau bychain gan gynnig cymorth i'w gilydd, pan fo angen. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod a blaenoriaethu eitemau yn ôl eu pwysigrwydd yn ddoeth ar gyfer eu cadw'n fyw ar ynys ddychmygol. Pan gânt gyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn addas i symud eu dysgu ymlaen yn briodol wrth ymateb i sylwadau staff a chyfoedion.

Mae llais y disgybl yn amlwg ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn cyfrannu syniadau at eu dysgu ar gychwyn themâu. Er enghraifft, gweithredodd aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor lles ar syniadau eu cyfoedion i adeiladu 'mainc mêts' ar yr iard i annog disgyblion i gefnogi ei gilydd a chyd-chwarae'n ddedwydd yn ystod amser egwyl. Mae bob disgybl yn aelod o gyngor, ac maent yn ymgymryd yn frwd â'u cyfrifoldebau arwain yn gydwybodol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau arwain yn hyderus ac yn cynnig rhesymau dilys dros wneud penderfyniadau. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at eraill yn lleol ac yn rhyngwladol, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle a gânt i gefnogi a chyfrannu at elusennau amrywiol a gweithgareddau dyngarol yn y gymuned leol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu'n hael at fanc bwyd Eglwys Sant Tudclud. O ganlyniad, maent yn cyfrannu'n werthfawr wrth estyn cymorth i deuluoedd sydd mewn angen.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd gofalu am eu hamgylchedd a chynaliadwyedd. Fel rhan o 'Brosiect Tŷ Natur', mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cydweithio â Pharc Cenedlaethol Eryri a Chartrefi Conwy i blannu gwrych a choed ffrwythau yn y pentref.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff yn cydweithio'n hynod effeithiol â disgyblion a rhieni i ddatblygu cwricwlwm symbylus a chyffrous sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent wedi sefydlu gweledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion, yn tanio eu dychymyg ac yn meithrin eu chwilfrydedd naturiol yn gelfydd. Mae cwricwlwm yr ysgol yn gytbwys ac eang ac yn ystyried yr ardal leol yn fedrus. O ganlyniad, mae'r profiadau'n ennyn brwdfrydedd ac ymroddiad y disgyblion at eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau dysgu trwy gynllunio themâu ysgol gyfan difyr. Maent yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a diddordebau disgyblion

mewn modd deallus a chydlynus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion wedi ei chynllunio'n ofalus ac yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i gymhwyso eu medrau ar draws ystod eang o gyd-destunau ysgogol. Mae'r profiadau dysgu hyn yn hybu disgyblion i arbrofi, gofyn cwestiynau ac i gydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion. Yn gyffredinol, mewn ychydig o weithgareddau, nid yw'r tasgau a'r profiadau dysgu yn herio ychydig iawn o ddisgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae staff yn sicrhau bod yr amgylchedd ddysgu y tu fewn a thu allan yn atyniadol ac yn annog cymuned ddysgu gynhyrchiol a llawn cyffro. Maent yn sicrhau mynediad rheolaidd i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau yn yr ardaloedd allanol sy'n cymell disgyblion i hwyluso'r dysgu'n gynyddol annibynnol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn i'w cefnogi i ymgolli yn eu profiadau dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn hynod ymholgar wrth arbrofi sut i hidlo dŵr ar gyfer eu cynnal ar ynys ddychmygol.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ymwelwyr i gyfoethogi'r profiadau dysgu. Er enghraifft, mae ffermwyr lleol yn dod â pheiriannau ac ystod o anifeiliaid i'r ysgol er mwyn dyfnhau dysgu'r disgyblion wrth gwblhau gwaith thematig 'Y Fferm'. Mae'r ymweliadau hyn yn sbarduno dychymyg disgyblion ac yn ehangu eu gwybodaeth am fyd gwaith a'u dyheadau personol am yrfaoedd amrywiol. Mae ymweliadau addysgol yn cryfhau'r ddarpariaeth yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn bwrpasol.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu sy'n hybu'r dysgu'n bwrpasol. Maent wedi sefydlu perthynas waith gefnogol â'r disgyblion sy'n seiliedig ar barch a'r dyhead fod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo. Mae amcanion clir i'r dysgu ac mae athrawon yn fodelau iaith effeithiol. Maent yn defnyddio dulliau holi treiddgar sy'n adalw dysgu blaenorol ac yn cadarnhau dealltwriaeth y disgyblion yn dda. At ei gilydd, mae staff yn annog disgyblion i siarad Cymraeg yn ddigymell. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn troi i'r Saesneg yn rhy aml.

Mae athrawon yn cynnig adborth i ddisgyblion ar eu gwaith. Er hyn, mae'r adborth yn aml yn canolbwyntio ar gamgymeriadau sillafu a chanmol ymdrech yn hytrach nag ar agweddau pwysig sy'n berthnasol i'r dasg. Ar adegau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ymateb i adborth ac i wella eu gwaith ond nid yw'r cyfleoedd hyn yn ddigon rheolaidd. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob tro'n gwybod beth i'w wneud i wella eu gwaith, a sut, yn ddigon clir ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i wneud gwelliannau gwerthfawr i'w gwaith.

Mae arweinwyr yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn ddeallus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i gynnal trafodaethau proffesiynol gwerthfawr ymysg staff. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol ganddynt er mwyn ymateb i anghenion penodol disgyblion ac i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion, staff a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae staff yn annog disgyblion i arddel a chyfrannu at ei hethos cefnogol a chyfeillgar. O ganlyniad, mae'r berthynas

waith gynhaliol a chynhyrchiol sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd hynod effeithiol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd eu lles emosiynol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr yn ystod y sesiynau 'Llun Lles' i ddisgyblion greu 'Bocs Hapus' personol. Maent yn cynnwys negeseuon cadarnhaol gan staff a chyfoedion ynghyd â gwrthrychau sydd o gysur i'r disgyblion unigol, fel tedi neu lun y maent yn ei drysori. Maent yn cael mynediad at y bocs ar unrhyw adeg os ydynt yn teimlo'n drist neu angen cefnogaeth emosiynol.

Mae'r pennaeth a'r staff yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r gweithdrefnau hyn yn galluogi athrawon i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gynnar ar eu taith drwy'r ysgol, ac i ddarparu cefnogaeth briodol iddynt, lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY. Mae gan yr ysgol gynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un tudalen manwl i'r disgyblion hyn, sy'n cynnwys targedau clir a phwrpasol i ymateb yn gadarn i'w hanghenion. Mae athrawon yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda disgyblion, y rhieni ac asiantaethau perthnasol er mwyn cynllunio'n fwriadus ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY), ynghyd â gweddill y staff, yn cynllunio rhaglenni cymorth pwrpasol i gefnogi anghenion disgyblion yn y dosbarth, yn unigol, neu mewn grwpiau bychain, lle bo'n briodol.

Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn annog disgyblion o bob cefndir a gallu i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn effeithiol mewn amrywiaeth o grwpiau pwrpasol. Mae'r ddarpariaeth hon yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd dod yn ddinasyddion gweithgar yng nghymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn amserlennu cyfnodau 'Gwener Gwych' yn wythnosol, sy'n cynnwys ystod o weithgareddau dyngarol, prynhawniau hwyliog a theithiau amrywiol. Mae hyn yn nodwedd hynod effeithiol o'r ddarpariaeth sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae staff yn meithrin y cyfleoedd hyn yn llwyddiannus ac yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr iddynt gyfrannu at benderfyniadau i ddatblygu'r ysgol ymhellach, yn ogystal â chyfrannu'n gadarnhaol at ofalu am les eu cyfoedion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu dawns greadigol yn effeithiol i ddathlu gŵyl y Diwali, ac yn ysgrifennu breuddwydion teimladwy yn seiliedig ar araith Martin Luther King, er enghraifft. Yn ychwanegol, mae aelodau o Eglwys Sant Tudclud yn ymweld â'r ysgol i adrodd stori y Posada. Yn eu tro, fel rhan o ddathliadau'r Nadolig, mae'r disgyblion yn cael gofalu am fodelau o Mair a Joseff a rhoi llety am y noson iddynt.

Un o rinweddau cryfaf gwaith yr ysgol yw'r defnydd mae staff yn ei wneud o 'gynefin' a chymuned ehangach y disgyblion. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o ymweliadau i fannau o ddiddordeb yn eu hardal leol, sy'n atgyfnerthu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw ymweliad y disgyblion ieuengaf â fferm leol i holi ffermwr am ei fywyd a'i waith. Gwna'r ysgol ddefnydd hynod effeithiol o ymwelwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant Cymreig. Er enghraifft, mae disgyblion yn mynd ar daith gerdded natur gyda naturiaethwr Cymreig enwog, ac yn ymweld â Thŷ Mawr Wybrnant i ddysgu am hanes yr Esgob William Morgan. O ganlyniad, mae hyn yn

sicrhau bod disgyblion yn meithrin ymdeimlad o berthyn i'w cynefin ac i ymfalchïo yn eu treftadaeth.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu diwylliant Cymreig, er enghraifft trwy greu darnau celf trawiadol gydag arlunydd lleol, perfformio'n rheolaidd mewn cystadlaethau'r Eisteddfod, a chael mynychu cyrsiau preswyl. Mae staff yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol a'r gymuned leol, er enghraifft mae'r côr yn diddanu preswylwyr hŷn y gymuned mewn gwesty lleol. Mae hyn yn datblygu hunanhyder disgyblion a'u balchder yn eu hysgol yn hynod lwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Darperir ystod o gyfleoedd buddiol i ddatblygu ffitrwydd a medrau corfforol disgyblion drwy'r sesiynau ystwytho'r corff, nofio ac hyfforddiant beicio, er enghraifft. Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau, er enghraifft mae tîm pêl-droed yr ysgol wedi dod yn fuddugol mewn twrnamaint yr Urdd.

Mae trefniadau'r ysgol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb yn gadarn. Mae'r pennaeth yn cysylltu â'r rhieni'n brydlon i drafod unrhyw bryder. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae gan yr holl staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn a chynhwysfawr, ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi gosod cyfeiriad strategol cadarn a chlir ar gyfer yr ysgol. Mae hi'n gweithio'n gydwybodol gyda'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd wrth osod dyheadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ei seilio ar sefydlu cymuned ysgol glòs sy'n 'Tyfu a dysgu gyda'n gilydd' mewn amgylchedd dysgu hapus a chynhwysol, ble mae llais y plentyn yn ganolog i'w holl waith.

Mae ymdeimlad teuluol cryf iawn wedi ei sefydlu yn yr ysgol, ac mae'r pennaeth yn ennyn brwdfrydedd yr holl staff i wneud eu gorau dros yr ysgol a'i chymuned. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol a hapus â'i gilydd i sicrhau darpariaeth gyfoethog a chofiadwy mewn cyd-destunau lleol a Chymreig. Ar draws yr ysgol, mae pwyslais cryf yn bodoli ar ddatblygu diwylliant Cymreig ymysg disgyblion. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion yn dueddol o siarad Saesneg â'u cyfoedion yn ystod sesiynau dysgu ac wrth chwarae.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i pherfformiad ei hun ac o'r staff, ac mae lles disgyblion a staff yn greiddiol i'w holl waith. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan dîm bach o staff sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda, ac maent yn ymgymryd â chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd i drefnu a gweithredu gweithgareddau er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau cytûn. O ganlyniad, mae staff yn gweithredu'n llwyddiannus i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae'r cymhorthyddion dysgu yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac mae ymagwedd pob aelod o staff yn canolbwyntio ar fodloni anghenion lles a dysgu pob disgybl.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn bwrpasol, sy'n cynnwys ystod briodol o eang o weithgareddau monitro y mae'r pennaeth a'r athrawon yn cymryd rhan ynddynt. Maent yn craffu ar lyfrau disgyblion a galw heibio gweithgareddau dysgu, lle mae athrawon yn ymweld â dosbarthiadau i werthuso agwedd benodol ar waith yr ysgol. Mae'r pennaeth hefyd yn ystyried tystiolaeth sy'n deillio o sylwadau disgyblion, staff a rhieni trwy ddadansoddi holiaduron wrth werthuso perfformiad yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn galluogi'r pennaeth i adnabod cryfderau a'r agweddau ar gyfer gwella yn gywir.

Mae'r llywodraethwyr yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol ac yn adnabod ei chymuned yn dda. Maent yn cyflawni eu rolau'n effeithiol iawn gan sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i'r pennaeth a'r staff. Mae'r ysgol yn manteisio ar arbenigeddau'r llywodraethwyr yn fedrus. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o fedrau un aelod i gynnal gweithdy mathemateg heriol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Mae hyn yn cyfrannu'n grefftus i gefnogi datblygiad medrau rhifedd y disgyblion hynaf. Mae'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd gan gynnal teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a chynnal trafodaethau â staff i werthuso cynnydd a chyflawniad disgyblion a'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella, ac mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n wybodus at drafodaethau penodol i bennu blaenoriaethau strategol i'r ysgol ac i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn finiog ac yn cyfrannu'n werthfawr at eu datblygiad. Mae'r pennaeth yn creu diwylliant cadarnhaol o hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff, ac mae cyfleoedd addas iddynt fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Darperir cyfleoedd i staff gydweithio'n agos â staff ysgolion lleol eraill, er enghraifft wrth gyd-gynllunio themâu a rhannu arferion da.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n ofalus er mwyn darparu rhaglenni sy'n cefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd ac emosiynol disgyblion. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr wedi creu diwylliant diogelu effeithiol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft trwy ddarparu ffynnon ddŵr i'r disgyblion.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r berthynas gynhyrchiol ac agos iawn sy'n bodoli rhwng y pennaeth, y staff a'r rhieni. Mae'r gymdeithas rieni yn weithgar iawn yn trefnu nifer o weithgareddau codi arian i'r ysgol er mwyn cyfrannu tuag at gostau teithiau addysgol a gwersi offerynnol disgyblion, er enghraifft. Yn ychwanegol, mae staff yn croesawu rhieni i'r ysgol yn rheolaidd, ac yn cynnal sesiynau gwerthfawr i rannu syniadau gyda nhw, er enghraifft i gefnogi datblygiad medrau darllen eu plant. O ganlyniad, mae'r rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi o fewn cymuned gefnogol, deuluol, a hynod ofalgar yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  24/04/2024